



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2015 Rhif 603 (Cy. 48)

2015 No. 603 (W. 48)

**Y GWASANAETH IECHYD
GWLADOL, CYMRU**

**NATIONAL HEALTH
SERVICE, WALES**

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd
Gwladol (Ffioedd a Thaliadau
Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2015**

**The National Health Service
(Optical Charges and Payments)
(Amendment) (Wales) Regulations
2015**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997 ("y Rheoliadau Optegol") sy'n darparu ar gyfer taliadau i'w gwneud drwy system dalebau o ran y costau yr aethpwyd iddynt gan gategorïau penodol o bersonau mewn cysylltiad â phroffion golwg a chyflenwi, amnewid a thrwsio teclynnau optegol.

Mae rheoliad 2 a'r Atodlen yn diwygio Atodlenni 1, 2 a 3 i'r Rheoliadau Optegol i gynyddu gwerth y talebau a ddyroddir tuag at y gost o gyflenwi ac amnewid sbectolau a lensys cyffwrdd, i gynyddu gwerthoedd ychwanegol y talebau ar gyfer prismau, arlliwiau, lensys ffotocromaidd a chategorïau arbennig o declynnau ac i gynyddu gwerth y talebau a ddyroddir tuag at y gost o drwsio ac amnewid teclynnau optegol.

Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn perthynas â thalebau a dderbyniwyd neu a ddefnyddiwyd cyn 31 Mawrth 2015.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations amend the National Health Service (Optical Charges and Payments) Regulations 1997 ("the Optical Regulations") which provide for payments to be made by means of a voucher system in respect of costs incurred by certain categories of persons in connection with sight tests and the supply, replacement and repair of optical appliances.

Regulation 2 and the Schedule amend Schedules 1, 2 and 3 to the Optical Regulations to increase the value of vouchers issued towards the cost of the supply and replacement of glasses and contact lenses, to increase the additional values for vouchers for prisms, tints, photochromic lenses and special categories of appliances and to increase the value of vouchers issued towards the cost of the repair and replacement of optical appliances.

Regulation 3 makes transitional provision in relation to vouchers accepted or used before 31 March 2015.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

2015 Rhif 603 (Cy. 48)

**Y GWASANAETH IECHYD
GWLADOL, CYMRU**

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd
Gwladol (Ffioedd a Thaliadau
Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2015**

Gwnaed 7 Mawrth 2015

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 10 Mawrth 2015

Yn dod i rym 1 Ebrill 2015

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 128, 129, 130, a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1).

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2015 sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2015.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “y Rheoliadau Optegol” (“*the Optical Regulations*”) yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997(2).

2015 No. 603 (W. 48)

**NATIONAL HEALTH
SERVICE, WALES**

**The National Health Service
(Optical Charges and Payments)
(Amendment) (Wales) Regulations
2015**

Made 7 March 2015

Laid before the National Assembly for Wales
10 March 2015

Coming into force 1 April 2015

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 128, 129, 130 and 203(9) and (10) of the National Health Service (Wales) Act 2006(1).

Title, commencement, application and interpretation

1.—(1) The title of these Regulations is the National Health Service (Optical Charges and Payments) (Amendment) (Wales) Regulations 2015 which come into force on 1 April 2015.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(3) In these Regulations—

“the Optical Regulations” (“*y Rheoliadau Optegol*”) means the National Health Service (Optical Charges and Payments) Regulations 1997(2).

(1) 2006 p. 42.

(2) O.S. 1997/818 fel y'i diwygiwyd.

(1) 2006 c. 42.

(2) S.I. 1997/818 as amended.

Diwygio'r Atodlenni i'r Rheoliadau Optegol

2.—(1) Mae Atodlenni 1 i 3 i'r Rheoliadau Optegol wedi eu diwygio yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn Atodlen 1 (codau llythrennau ac wynebwerthoedd talebau – cyflenwi ac amnewid) yng ngholofn (3) o'r tabl (wynebwerth taleb), yn lle pob swm a bennir yng ngholofn (1) o dabl 1 isod rhodder y swm a bennir mewn perthynas ag ef yng ngholofn (2) o'r tabl isod:

Tabl 1

<i>(1) Swm Blaenorol</i>	<i>(2) Swm Newydd</i>
£38.30	£38.70
£58.10	£58.70
£85.10	£86.00
£192.20	£194.10
£66.10	£66.80
£84.00	£84.80
£109.00	£110.10
£211.30	£213.40
£196.80	£198.80
£55.80	£56.40

(3) Yn Atodlen 2 (prismau, arlliwiau, lensys ffotocromaidd, sbectolau bach a sbectolau arbennig, a theclynnau cymhleth)—

- (a) ym mharagraff 1(1)(a), yn lle “£12.40” rhodder “£12.50”;
- (b) ym mharagraff 1(1)(b), yn lle “£15.00” rhodder “£15.20”;
- (c) ym mharagraff 1(1)(c), yn lle “£4.20” rhodder “£4.30”;
- (d) ym mharagraff 1(1)(d), yn lle “£4.70” rhodder “£4.80”;
- (e) ym mharagraff 1(1)(e), yn lle “£63.00”, “£55.80” a “£30.20” rhodder “£63.60”, “£56.40” a “£30.50” yn eu trefn;
- (f) ym mharagraff 1(1)(g), yn lle “£63.00” rhodder “£63.60”;
- (g) ym mharagraff 2(a), yn lle “£14.40” rhodder “£14.50”; a
- (h) ym mharagraff 2(b), yn lle “£36.60” rhodder “£37.00”.

(4) Yn lle Atodlen 3 (gwerthoedd talebau - trwsio), rhodder yr Atodlen 3 a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Amendments to the Schedules to the Optical Regulations

2.—(1) Schedules 1 to 3 to the Optical Regulations are amended in accordance with the following provisions of this regulation.

(2) In Schedule 1 (voucher letter codes and face values – supply and replacement) in column (3) of the table (face value of voucher) for each amount specified in column (1) of table 1 below substitute the amount specified in relation to it in column (2) of the table below:

Table 1

<i>(1) Old Amount</i>	<i>(2) New Amount</i>
£38.30	£38.70
£58.10	£58.70
£85.10	£86.00
£192.20	£194.10
£66.10	£66.80
£84.00	£84.80
£109.00	£110.10
£211.30	£213.40
£196.80	£198.80
£55.80	£56.40

(3) In Schedule 2 (prisms, tints, photochromic lenses, small and special glasses and complex appliances)—

- (a) in paragraph 1(1)(a), for “£12.40” substitute “£12.50”;
- (b) in paragraph 1(1)(b), for “£15.00” substitute “£15.20”;
- (c) in paragraph 1(1)(c), for “£4.20” substitute “£4.30”;
- (d) in paragraph 1(1)(d), for “£4.70” substitute “£4.80”;
- (e) in paragraph 1(1)(e), for “£63.00”, “£55.80”, and “£30.20” substitute “£63.60”, “£56.40” and “£30.50” respectively;
- (f) in paragraph 1(1)(g), for “£63.00” substitute “£63.60”;
- (g) in paragraph 2(a), for “£14.40” substitute “£14.50”; and
- (h) in paragraph 2(b), for “£36.60” substitute “£37.00”.

(4) For Schedule 3 (voucher values repair), substitute the Schedule 3 set out in the Schedule to these Regulations.

Darpariaeth Drosiannol

3. Dim ond mewn perthynas â thaleb a dderbynnir neu a ddefnyddir yn unol â rheoliad 12 neu reoliad 17 o'r Rheoliadau Optegol ar 1 Ebrill 2015 neu ar ôl hynny y mae'r symiau a amnewidir gan reoliad 2 yn gymwys.

Transitional Provision

3. The amounts substituted by regulation 2 apply only in relation to a voucher accepted or used pursuant to regulation 12 or regulation 17 of the Optical Regulations on or after 1 April 2015.

Mark Drakeford

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
7 Mawrth 2015

Minister for Health and Social Services, one of the
Welsh Ministers
7 March 2015

YR ATODLEN Rheoliad 2(4)

Atodlen 3 i'r Rheoliadau Optegol fel y'i hamnewidir gan y Rheoliadau hyn

“SCHEDULE 3

Voucher Values Repair Regulation 19(2) and (3)

(1) Nature of Repair	(2) Letter of Codes - Values								
	A	B	C	D	E	F	G	H	I
	£	£	£	£	£	£	£	£	£
Repair or replacement of one lens	12.05	22.05	35.70	89.75	26.10	35.10	47.75	99.40	92.10
Repair or replacement of two lenses	24.10	44.10	71.40	179.50	52.20	70.20	95.50	198.80	184.20
Repair or replacement of: the front of a frame	12.35	12.35	12.35	12.35	12.35	12.35	12.35	12.35	12.35
a side of a frame	7.30	7.30	7.30	7.30	7.30	7.30	7.30	7.30	7.30
the whole frame	14.60	14.60	14.60	14.60	14.60	14.60	14.60	14.60	14.60”

SCHEDULE Regulation 2(4)

Schedule 3 to the Optical Regulations as substituted by these Regulations

“SCHEDULE 3

Voucher Values Repair Regulation 19(2) and (3)

(1) Nature of Repair	(2) Letter of Codes – Values								
	A	B	C	D	E	F	G	H	I
	£	£	£	£	£	£	£	£	£
Repair or replacement of one lens	12.05	22.05	35.70	89.75	26.10	35.10	47.75	99.40	92.10
Repair or replacement of two lenses	24.10	44.10	71.40	179.50	52.20	70.20	95.50	198.80	184.20
Repair or replacement of: the front of a frame	12.35	12.35	12.35	12.35	12.35	12.35	12.35	12.35	12.35
a side of a frame	7.30	7.30	7.30	7.30	7.30	7.30	7.30	7.30	7.30
the whole frame	14.60	14.60	14.60	14.60	14.60	14.60	14.60	14.60	14.60”

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2015 Rhif 603 (Cy. 48)

2015 No. 603 (W. 48)

**Y GWASANAETH IECHYD
GWLADOL, CYMRU**

**NATIONAL HEALTH
SERVICE, WALES**

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd
Gwladol (Ffioedd a Thaliadau
Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2015

The National Health Service
(Optical Charges and Payments)
(Amendment) (Wales) Regulations
2015

